WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Arlwyo mewn Ysbytai – Gwaith dilynol ar yr argymhellion a wnaed yn 2010

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**Blwyddyn archwilio:** 2012-13

**Cyhoeddwyd:** Ebrill 2013

**Cyfeirnod y ddogfen:** 188A2013

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Andrew Doughton a Mandy Townsend.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Crynodeb | 4 |
| Atodiadau | |
| Tabl o gynnydd yn erbyn argymhellion unigol | 8 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

**1.** Mae gwasanaethau arlwyo mewn ysbytai yn rhan hanfodol o'r gofal a roddir i gleifion o gofio bod prydau bwyd maethlon, o ansawdd da yn chwarae rhan hollbwysig wrth helpu cleifion i adsefydlu a gwella. Mae gwasanaethau arlwy o effeithiol yn dibynnu ar gamau cadarn i gynllunio a chydgysylltu amrywiaeth o brosesau gan gynnwys cynllunio bwydlenni, caffael, cynhyrchu bwyd a dosbarthu prydau bwyd i wardiau a chleifion. Mae'n rhaid i'r holl grwpiau staff amrywiol sy'n rhan o'r prosesau hyn gyfathrebu'n dda â'i gilydd, gan gynnwys rheolwyr, staff arlwyo, deietegwyr a phorthorion.

**2.** Dylai hyn arwain at y canlyniad dymunol, sef gwasanaeth arlwyo sy'n hyblyg, yn gost-effeithiol ac yn darparu dewis da o brydau bwyd maethlon a all ddiwallu anghenion deietegol penodol cleifion. Mae angen i statws maethol cleifion gael ei asesu a'i fonitro'n gywir, a dylid gwneud trefniadau i helpu cleifion i fwynhau eu prydau bwyd mewn amgylchedd sy'n gydnaws â bwyta.

**3.** Yn 2010, gwnaethom gynnal adolygiad o wasanaethau arlwyo ym mhob un o'r Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru. Gwnaethom gofnodi ein canfyddiadau yn genedlaethol, a chynnal nifer o ddigwyddiadau arfer da a fynychwyd gan staff o bob rhan o Gymru. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd), cofnodwyd ein canfyddiadau lleol ym mis Rhagfyr 2010.

**4.** Ar yr adeg honno, daethom i'r casgliad, er bod y trefniadau arlwyo yn y Bwrdd Iechyd yn dangos sawl agwedd ar arfer da cydnabyddedig, fod angen atgyfnerthu'r gwaith cynllunio a chraffu a mynd i'r afael ag amrywiadau mewn safonau ar lefel ward a rhwng ysbytai. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- nid oes fframwaith cynllunio strategol ar gael ac nid yw proses graffu'r Bwrdd ar risgiau a heriau cysylltiedig mor gadarn ag y gallai fod;
- mae trefniadau caffael bwyd effeithiol a diogel ar waith, er bod systemau cynhyrchu bwyd a rheoli costau yn amrywio, gan awgrymu bod potensial i sicrhau gwell cysondeb a gwella effeithlonrwydd;
- mae'r rhan fwyaf o wardiau yn cael bwyd mewn cyflwr rhesymol er bod trefniadau ar gyfer darparu'r bwyd yn amrywio ar draws y Bwrdd Iechyd ac mae lle i wella profiad y claf;
- yn gyffredinol, mae rheolwyr wardiau yn canolbwyntio ar yr angen i sicrhau cymorth priodol o ran arlwyo a maeth, er bod arfer wardiau yn amrywio ac ni chofnodwyd rhai agweddau ar statws maethol cleifion o gwbl; a
- chesglir barn cleifion ar fwyd ysbyty a gwasanaethau arlwyo mewn sawl ffordd ac mae lle i wneud y gweithgareddau hyn yn fwy cyson a rhannu'r canlyniadau'n ehangach.

**5.** Gwnaethom nifer o argymhellion manwl ar y pryd[1], a adlewyrchwyd gennym hefyd yn ein hadroddiad cenedlaethol[2] a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011. Nod yr argymhellion hyn oedd gwella cydymffurfiaeth â gweithdrefnau sgrinio maethol a chynllunio gofal a gweithdrefnau diogelwch bwyd, yn ogystal â gwella systemau i reoli costau arlwyo a gwella profiadau cleifion.

**6.** Yn ystod hydref 2012, fel rhan o'n rhaglen o waith archwilio yn y Bwrdd Iechyd, gwnaethom ystyried a oedd y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd yn erbyn argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad lleol. Nid ydym wedi asesu cynnydd yn erbyn argymhellion cenedlaethol gan fod y Bwrdd Iechyd eisoes yn cofnodi cynnydd yn erbyn yr argymhellion cenedlaethol ar ei wefan. Mae'r rhain ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/63292. Diweddarwyd hyn gan y Bwrdd Iechyd ddiwethaf ym mis Ebrill 2012.

**7.** Wrth gynnal yr adolygiad gwaith dilynol i bennu cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran cyflawni'r argymhellion lleol, gwnaethom:

- gyfarfod â nifer o uwch reolwyr a rheolwyr gweithredol, yn ogystal â chynrychiolwyr cyllid; ac
- adolygu dogfennaeth wedi'i diweddaru megis strategaeth, polisi a gweithdrefn.

Ni wnaethom ailadrodd gwaith maes manwl yr adolygiad gwreiddiol, nac arsylwi ar y safle, ar wahân i'n hymweliad â safle Maelor Wrecsam, a oedd yn cynnwys arsylwi ar waith unioni a gwella yn yr adran arlwyo.

**8.** Yn sgîl ein canfyddiadau o'r adroddiad dilynol hwn, down i'r casgliad **bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau mewn nifer o feysydd ond nid yw'r ymateb yn ddigon cyflym ac ni chafodd nifer o'n hargymhellion eu rhoi ar waith.** O blith yr 20 o argymhellion a adolygwyd gennym yn y gwaith dilynol hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau pump yn llawn, ac mae 15 yn parhau i fynd rhagddynt. Mae'r tabl isod, Arddangosyn 1, yn nodi'r maes argymhellion ynghyd â chrynodeb o gynnydd.

[1] Mae'r argymhellion i'w gweld yn *Arlwyo mewn Ysbytai* yn http://www.wao.gov.uk/assets/Local_Reports/Betsi_Cadwaladr_HB_Hospital_Catering.pdf

[2] Mae'r argymhellion i'w gweld yn *Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai* yn http://www.wao.gov.uk/assets/englishdocuments/HC_Report_ENG.pdf

Arddangosyn 1

| Maes yr argymhelliad | Nifer yr argymhellion a wnaed | Argymhelliad yr aethpwyd i'r afael ag ef sy'n mynd rhagddo | Argymhelliad yr aethpwyd i'r afael ag ef yn llawn |
|---|---|---|---|
| Trefniadau cynllunio a rheoli strategol | 5 | 5 | 0 |
| Caffael, cynhyrchu a rheoli costau | 3 | 2 | 1 |
| Dosbarthu bwyd i'r ward | 7 | 4 | 3 |
| Diwallu anghenion maethol cleifion a'u helpu i wella | 3 | 2 | 1 |
| Casglu barn cleifion a rhannu gwybodaeth | 2 | 2 | 0 |
| **Cyfanswm** | **20** | **15** | **5** |

**9.** Mae'r gwaith dilynol hwn yn tynnu sylw at dri maes o bryder sy'n ymwneud ag amseroldeb ac effeithiolrwydd wrth ymateb i argymhellion:

- **Tymheredd bwyd yn Ysbyty Maelor Wrecsam**: Gwnaethom yn benodol dynnu sylw at bryder sylweddol ynghylch diogelwch cleifion yn ymwneud â'r ffaith nad oedd tymheredd bwyd mewn wardiau yn unol â'r canllawiau[3] am eu bod yn defnyddio hen drolïau heb wres ynddynt i gludo bwyd. Gall y broblem hon gynyddu'r risg o wenwyn bwyd a achosir gan fwyd sydd wedi'i halogi â bacteria megis salmonella neu E. coli neu feirws fel norofeirws[4]. Cymerodd ddwy flynedd i'r Bwrdd Iechyd ymateb i'r mater brys hwn. Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad yn llawn ym mis Ionawr 2013. Y rheswm am yr oedi, yn ôl pob tebyg, oedd y canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig i hyn yn unig:
  - trefniadau rheoli prosiectau a ganolbwyntiodd yn wreiddiol ar yr elfen cyfalaf, yn hytrach nag ar y newidiadau ehangach mewn gwasanaethau, ym maes arlwyo ac ar y wardiau;
  - yr amser a gymerodd i benderfynu ar y dull o ddarparu bwyd (er enghraifft Swmpgyflenwi neu Fwyd ar Blât);
  - yr amser a gymerodd i dendro, profi, dewis darparwr, a chaffael trolïau; a
  - gwaith nas rhagwelwyd yr oedd angen ei wneud i fynd i'r afael â gofynion pweru'r trolïau a gaiff eu cynhesu'n electronig.

  Ni waeth beth fo'r rhesymau, cymerodd ormod o amser i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â'r maes risg hwn.

---

[3] Yr Asiantaeth Safonau Bwyd http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/tempcontrolguiduk.pdf
[4] NHS Choices http://www.nhs.uk/conditions/Food-poisoning/Pages/Introduction.aspx

- **Cyflymder yr ymateb i bob argymhelliad**: Nid yw argymhellion a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru bob amser yn cynnwys terfynau amser. Mae hyn yn golygu bod gan Fyrddau Iechyd rywfaint o hyblygrwydd i ymateb mewn ffordd sy'n integreiddio'r camau gweithredu sy'n ofynnol mewn cynlluniau busnes lleol, fel bod adrannau a gwasanaethau yn mynd yn llwyr gyfrifol am y camau hynny. Serch hynny, mae dwy flynedd ers i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi, a byddem yn disgwyl i'r holl gamau unioni gael eu cymryd o fewn y cyfnod hwn, p'un a yw'r rhain yn argymhellion risg uchel neu ganolig.
- **Trosolwg o'r argymhellion a'r camau gweithredu a'r broses o graffu arnynt**: Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, mae angen i'r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu'r broses o gynnal trosolwg, er mwyn sicrhau ei fod yn ymateb i argymhellion rheoleiddwyr yn gyflym ac yn effeithiol.

**10.** Nodir ein canfyddiadau yn ein tabl diweddariad ar gynnydd yn Atodiad 1. Nid ydym wedi gwneud argymhellion ychwanegol fel rhan o'r adolygiad dilynol hwn. Mae angen datganiad ysgrifenedig arnom ym mis Hydref 2013 o'r cynnydd ychwanegol a wnaed ac unrhyw argymhellion sy'n weddill.

# Atodiad 1

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb ym mis Ionawr 2013 | Cynnydd erbyn mis Ionawr 2013 | Cynnydd yr erbyn yr argymhelliad gwreiddiol<br>• Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad<br>• Cam gweithredu ar Waith<br>• Heb ddechrau mynd i'r afael â'r argymhelliad | Camau gweithredu awgrymedig/cynlluniedig pellach |
|---|---|---|---|---|
| **Trefniadau cynllunio a rheoli strategol** | | | | |
| A1 Atgyfnerthu trefniadau cynllunio strategol ar gyfer arlwyo er mwyn sicrhau agenda glir a chyson i'r gwasanaeth arlwyo ar draws y Bwrdd Iechyd. | Heather Piggott, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (Gwasanaethau Rheoli Haint a Chleifion) | Crëodd y Bwrdd Iechyd grŵp strategol yn 2011 y mae ei agenda'n cwmpasu agweddau ar ofal sy'n ymwneud ag arlwyo a maeth. Mae'r grŵp, a elwir yn 'Safonau Gwella Maeth, Arlwyo a Hydradu Strategol (INCHS)', yn cyfarfod bob deufis. Mae wedi dechrau cysoni trefniadau cynllunio, ac mae ganddo agenda benodol. Mae gan y grŵp gylch gorchwyl, ac o fewn yr aelodaeth hon mae'n cynnwys cynrychiolydd y cleifion (heb ei benodi eto), Cyngor Iechyd Cymuned, cynrychiolaeth o feysydd Gofal Sylfaenol ac Iechyd y Cyhoedd, yn ogystal â nifer o arweinwyr gwasanaethau mewnol. Nid oes digon o gynrychiolwyr o'r gwasanaeth arlwyo yn y grŵp hwn. Er ei bod yn ofynnol i gynrychiolydd o'r gwasanaeth arlwyo fod yn bresennol, nid yw presenoldeb yn gyson ac nid oes fawr ddim trafodaeth ar gynllun strategol y gwasanaethau arlwyo yn yr agenda na'r cofnodion. | Cam gweithredu ar Waith | Mae angen i gynrychiolaeth y grŵp arlwyo barhau i gryfhau yn y grŵp INCHS. Dylai hyn anelu at sicrhau gwaith cysoni gwell rhwng cynlluniau arlwyo a maeth.<br>Er bod trefniadau cynllunio strategol wedi cael eu hatgyfnerthu, bydd angen iddynt gael eu datblygu ymhellach er mwyn sicrhau bod agenda glir a chyson a phrosesau cyson ar draws y Bwrdd Iechyd lle bo'u hangen. |

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb ym mis Ionawr 2013 | Cynnydd erbyn mis Ionawr 2013 | Cynnydd yr erbyn yr argymhelliad gwreiddiol<br>• Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad<br>• Cam gweithredu ar Waith<br>• Heb ddechrau mynd i'r afael â'r argymhelliad | Camau gweithredu awgrymedig/cynlluniedig pellach |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi llunio strategaeth arlwyo a maeth, ond nid oes unrhyw gynllun cyflawni strategol cysylltiedig wedi'i gostio na chynllun ac iddo adnoddau. Nid yw'n glir pa gamau gweithredu y mae angen i'r Gwasanaeth Arlwyo eu cymryd yn ôl y Bwrdd Iechyd i lunio ei fodel busnes/gwasanaethu ei hun i ddiwallu anghenion strategol. | | |
| A2 Pennu strwythurau cynllunio ar gyfer gwasanaethau arlwyo a maeth sy'n gyson ar draws y Bwrdd Iechyd. | Heather Piggott, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (Gwasanaethau Rheoli Haint a Chleifion) | Mae'r strwythurau cynllunio drwy grŵp INCHS a'i is-grwpiau yn bennaf. Mae'r trefniadau hyn yn dechrau creu rhywfaint o gysondeb ar draws safleoedd (bwydlenni), ond mae arfer yn parhau i amrywio llawer (dyrannu cyllid, costau staff yn erbyn costau darparu, dull cynhyrchu a dull cyflawni).<br>Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Strategaeth Maeth ac Arlwyo. Ar ei ffurf gyfredol, nid yw'r strategaeth yn ystyried cynllun y gwasanaeth arlwyo yn ddigonol.<br>Er gwaethaf hynny, bu nifer o weithgareddau a fyddai'n dod o fewn cynllun gweithredu | Cam gweithredu ar Waith | Er bod gwelliant amlwg o ran cynllunio gwasanaeth maeth, mae angen atgyfnerthu'r gwaith o gynllunio gwasanaeth arlwyo ymhellach. |

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb ym mis Ionawr 2013 | Cynnydd erbyn mis Ionawr 2013 | Cynnydd yr erbyn yr argymhelliad gwreiddiol<br>• Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad<br>• Cam gweithredu ar Waith<br>• Heb ddechrau mynd i'r afael â'r argymhelliad | Camau gweithredu awgrymedig/cynlluniedig pellach |
|---|---|---|---|---|
| | | strategol:<br>• datblygu dulliau hyfforddi Maeth mewn lleoliadau gofal acíwt a chymunedol;<br>• datblygu dulliau sgrinio maeth ac archwilio/gwirio ar hap mwy cyson<br>• safoni bwydlenni ar draws safleoedd;<br>• safoni prisiau bwydlenni i bobl nad ydynt yn gleifion ar draws safleoedd;<br>• cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu trafodaeth a dulliau gweithredu ar gyfer y fframwaith arlwyo cenedlaethol;<br>• datblygu dulliau o ddarparu gwasanaeth arlwyo (ar blât i swmpgyflenwi yn Ysbyty Maelor Wrecsam yn unig); a<br>• cynllun buddsoddi i arbed (ailfodelu gwerthiannau i bobl nad ydynt yn gleifion ar ffurf bistro). | | |

| Argymhelliad | | Cyfrifoldeb ym mis Ionawr 2013 | Cynnydd erbyn mis Ionawr 2013 | Cynnydd yr erbyn yr argymhelliad gwreiddiol<br>• Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad<br>• Cam gweithredu ar Waith<br>• Heb ddechrau mynd i'r afael â'r argymhelliad | Camau gweithredu awgrymedig/cynlluniedig pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Trefniadau cynllunio a rheoli strategol** | | | | | |
| A3 | Mynd i'r afael â phroblemau rheoli ceginau a staff yn Ysbyty Maelor Wrecsam fel mater o frys. | Paul Clarke, Pennaeth Gwasanaethau Cleifion | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau ymdrin â materion rheoli a staffio. Ar hyn o bryd mae'r trefniadau rheoli dros dro yn parhau. Mae'r oedi hwn cyn penodi'n barhaol am fod gwasanaethau cleifion yn cael eu hailstrwythuro ar hyn o bryd. | Cam gweithredu ar Waith | |
| A4 | Lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i ddatblygu a sefydlu prosesau arlwyo a maeth newydd. | Heather Piggott, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (Gwasanaethau Rheoli Haint a Chleifion) | Nid yw'n glir bod yr amser y mae'n ei gymryd i ddatblygu a sefydlu prosesau arlwyo a maeth newydd wedi gwella ers ein hadolygiad gwreiddiol yn 2010. Roedd prynu troliau newydd yn galw am brosesau arlwyo a maeth newydd (rhoi'r bwyd ar blât ar y ward). Mae'r prosiect cyfan wedi cymryd dwy flynedd i'w roi ar waith. Gall y rhesymau am hyn fod yn gysylltiedig â'r canlynol:<br>• yr amser sydd ei angen i ddatblygu strategaeth a chynllun gweithredu strategaeth cysylltiedig wedi dod i ben; | Cam gweithredu ar Waith | Cwblhau erbyn diwedd mis Medi 2013. |

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb ym mis Ionawr 2013 | Cynnydd erbyn mis Ionawr 2013 | Cynnydd yr erbyn yr argymhelliad gwreiddiol<br>• Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad<br>• Cam gweithredu ar Waith<br>• Heb ddechrau mynd i'r afael â'r argymhelliad | Camau gweithredu awgrymedig/cynlluniedig pellach |
|---|---|---|---|---|
| | | • dim strwythur clir ar waith ym maes Gwasanaethau Cleifion (er bod hyn wrthi'n cael ei ddatblygu);<br>• yr amser sydd ei angen i'r grŵp INCHS egluro a gweithredu'n llawn ac yn effeithiol o dan Gylch Gorchwyl cytûn wedi dod i ben; a<br>• dim methodoleg rheoli prosiect effeithiol ar waith mewn prosiectau cyflawni newid (nad ydynt yn ymwneud â chyfalaf).<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd yn y meysydd hyn dros y chwe mis diwethaf, ac mae cyflymder y cynnydd yn debygol o gynyddu. Ceir enghreifftiau cliriach o gyflymder cynyddol cynnydd o ran datblygu a gweithredu prosesau maethol, hyfforddiant, hunanasesu a hapwiriadau. | | |

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb ym mis Ionawr 2013 | Cynnydd erbyn mis Ionawr 2013 | Cynnydd yr erbyn yr argymhelliad gwreiddiol<br>• Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad<br>• Cam gweithredu ar Waith<br>• Heb ddechrau mynd i'r afael â'r argymhelliad | Camau gweithredu awgrymedig/cynlluniedig pellach |
|---|---|---|---|---|
| A5 Gwella trefniadau craffu'r Bwrdd ar gyfer monitro arlwyo a risgiau a pherfformiad o ran maeth. | Heather Piggott, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (Gwasanaethau Rheoli Haint a Chleifion) | Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn cael adroddiadau gan y Grŵp Gwella Profiad y Defnyddiwr Gwasanaethau (ISUE). Mae'r Grŵp Gwella Safonau Maeth, Arlwyo a Hydradu yn adrodd i ISUE. Mae'r Grŵp Sgrinio Maeth, y Grŵp Maeth Artiffisial, y Grŵp Hawliau Dynol, a'r grŵp profiad cleifion Adeg Bwyd/Bwydlenni yn cefnogi hyn. Mae'r Grŵp Arlwyo a'r Grŵp Nwyddau Arlwyo yn bwydo i mewn i'r olaf.<br>Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod trosolwg pwyllgor Ansawdd a Diogelwch cryfach o agweddau ar y gwasanaethau maeth a threfniadau cysylltiedig, nag sydd o risgiau Gwasanaethau Arlwyo. | Cam gweithredu ar Waith | Cryfhau cynrychiolaeth Gwasanaethau Arlwyo yn y Grŵp INCHS. Dylai'r trefniant geisio cyswllt mwy uniongyrchol rhwng trosolwg y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a pha mor dda y mae'r Gwasanaethau Arlwyo yn diwallu anghenion cleifion.<br>Mae risg bosibl o orgymhlethu strwythur y grŵp, a all arwain at ddiffyg llinellau atebolrwydd clir.<br>Cynnwys maeth ac arlwyo mewn adroddiadau ansawdd - cyflwyno adroddiadau ansawdd i'r Bwrdd. |

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb ym mis Ionawr 2013 | Cynnydd erbyn mis Ionawr 2013 | Cynnydd yr erbyn yr argymhelliad gwreiddiol<br>• Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad<br>• Cam gweithredu ar Waith<br>• Heb ddechrau mynd i'r afael â'r argymhelliad | Camau gweithredu awgrymedig/cynlluniedig pellach |
|---|---|---|---|---|
| **Caffael, cynhyrchu a rheoli costau** | | | | |
| A6 Cyflwyno polisi cymhorthdal clir i bennu'r fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau arlwyo i bobl nad ydynt yn gleifion. | Heather Piggott, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (Gwasanaethau Rheoli Haint a Chleifion) | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno bwydlen â phrisiau safonol ar gyfer gwasanaethau arlwyo i bobl nad ydynt yn gleifion ar bob safle. Mae hyn wedi safoni dulliau cymhorthdal ac wedi arwain at leihad yn swm y cymhorthdal yn gyffredinol, ond nid oes polisi cymhorthdal ffurfiol ar gael o hyd.<br>Yr amcangyfrif cyfredol ar gyfer cymhorthdal prydau bwyd i bobl nad ydynt yn gleifion yw £180,000 y flwyddyn, sef gwelliant sylweddol ar y cymhorthdal o £370,000 yn 2010. Seiliodd y Bwrdd Iechyd y ffigurau cost arlwyo ar gyfer pobl nad ydynt yn gleifion ar archwiliad trylwyr wythnos o hyd o weithgarwch a chostau diriaethol (ond nid oedd yn cynnwys dosrannu costau ystadau a chyfleustodau). | Cam gweithredu ar Waith | |

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb ym mis Ionawr 2013 | Cynnydd erbyn mis Ionawr 2013 | Cynnydd yr erbyn yr argymhelliad gwreiddiol<br>• Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad<br>• Cam gweithredu ar Waith<br>• Heb ddechrau mynd i'r afael â'r argymhelliad | Camau gweithredu awgrymedig/cynlluniedig pellach |
|---|---|---|---|---|
| A7 Datblygu trefniadau cyfriflyfr cyson ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gadarn a digonol am fusnes arlwyo ar gael. | Heather Piggott, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (Gwasanaethau Rheoli Haint a Chleifion) | Bellach ceir canolfannau costau ar wahân (cyfrifon masnachu - gwasanaethau i gleifion ac i bobl nad ydynt yn gleifion). Noda rheolwyr fod adroddiadau ariannol ar lefel safle bellach yn gyson a bod y mesurau ariannol bellach yn rhai tebyg am debyg. Nid oes unrhyw adroddiadau ar linellau gwasanaethau ar hyn o bryd.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflwyno system Menumark[5] yn y dyfodol er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r broblem hon. Ar hyn o bryd mae system Menumark yn cael ei defnyddio yn Ysbyty Glan Clwyd. Roedd ffigurau'r flwyddyn ddiwethaf (11/12) a | Cam gweithredu ar Waith | Dylai'r Bwrdd Iechyd anelu at greu gwybodaeth ariannol gyson a chymaradwy am y gwasanaeth arlwyo sy'n adlewyrchu cost wirioneddol y ddarpariaeth a'r gwasanaethau. Ochr yn ochr â hyn, dylai'r Bwrdd Iechyd anelu at leihau'r amrywiad mewn dulliau ariannu yn y gwasanaeth Arlwyo a cheisio cysondeb yn y gwasanaeth arlwyo a ddarperir er mwyn sicrhau'r profiad gorau posibl |

[5] Mae System Arlwyo Menumark yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar arlwywyr ysbytai i reoli stoc, llunio bwydlenni a chynnal gweithgaredd yn y man gwerthu. Mae adroddiadau Menumark yn cynnwys cipluniau amser real o elw gros, costau bwydo cleifion, cynnwys maethol a chost ryseitiau. http://www.datasym.co.uk/datasym-hospital-catering.php

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb ym mis Ionawr 2013 | Cynnydd erbyn mis Ionawr 2013 | Cynnydd yr erbyn yr argymhelliad gwreiddiol<br>• Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad<br>• Cam gweithredu ar Waith<br>• Heb ddechrau mynd i'r afael â'r argymhelliad | Camau gweithredu awgrymedig/cynlluniedig pellach |
|---|---|---|---|---|
| | | gyflwynwyd yn y System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS) yn seiliedig ar ddosrannu.<br>Mae anghysondebau cyllidebol o hyd rhwng y tri safle. Er enghraifft, mae'r gyllideb cost llafur yn is yn Wrecsam nag ydyw ar safleoedd eraill, sydd â mwy o gapasiti. Fodd bynnag, mae'r gyllideb darpariaethau yn fwy yn Wrecsam nag ydyw ar safleoedd eraill. Mae'r anghysondeb cyllidebol hwn wedi annog arferion gwahanol ar safleoedd gwahanol. | | i'r claf adeg bwyd. |

| Argymhelliad | | Cyfrifoldeb ym mis Ionawr 2013 | Cynnydd erbyn mis Ionawr 2013 | Cynnydd yr erbyn yr argymhelliad gwreiddiol<br>• Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad<br>• Cam gweithredu ar Waith<br>• Heb ddechrau mynd i'r afael â'r argymhelliad | Camau gweithredu awgrymedig/cynlluniedig pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| A8 | Gwella'r trefniadau monitro gwastraff bwyd cyfredol i adlewyrchu effeithlonrwydd cynhyrchu yn gywir a helpu i nodi'r potensial i wella systemau presennol. | Heather Piggott, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (Gwasanaethau Rheoli Haint a Chleifion) | Mae monitro gwastraff bwyd ar wardiau wedi gwella'n sylweddol ac mae pob Ward yn cael ei monitro adeg Brecwast, Cinio a Swper. Dim ond prydau heb eu cyffwrdd yn hytrach na gwastraff ar blatiau y mae'r gwaith monitro hwn yn ei ystyried. Mae'r lefel hon o fonitro wedi nodi patrymau nad ydynt yn wahanol iawn rhwng safleoedd, ond mae amrywiad o ran y math o ward (e.e. mae gan yr Uned Asesu Meddygol (MAU) fwy o wastraff na rhai wardiau eraill).<br>Ar hyn o bryd, gall gwybodaeth am brydau bwyd heb eu cyffwrdd ddarparu dangosydd rhesymol o ansawdd yn ymwneud â chleifion sydd angen cymorth adeg bwyd. | Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad | Bydd angen gwella'r dull monitro gwastraff bwyd ymhellach i gynnwys gwastraff ar blatiau a gwastraff ar drolïau pan fydd y Bwrdd Iechyd yn symud i wasanaeth swmpgyflenwi yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Bydd y dull hwn wedyn yn galluogi'r gwasanaeth Arlwyo i leihau gwastraff cynhyrchu diangen ac yn helpu i sicrhau bod cleifion yn cael y maeth sydd ei angen arnynt. |

| Argymhelliad | | Cyfrifoldeb ym mis Ionawr 2013 | Cynnydd erbyn mis Ionawr 2013 | Cynnydd yr erbyn yr argymhelliad gwreiddiol<br>• Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad<br>• Cam gweithredu ar Waith<br>• Heb ddechrau mynd i'r afael â'r argymhelliad | Camau gweithredu awgrymedig/cynlluniedig pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dosbarthu bwyd i'r ward** | | | | | |
| A9 | Mynd i'r afael â'r diffygion o ran ansawdd bwyd a'r ddarpariaeth a nodwyd yn yr adroddiad hwn sy'n effeithio ar ansawdd y bwyd y mae cleifion yn ei gael yn Ysbyty Maelor Wrecsam. | Paul Clarke, Pennaeth Gwasanaethau Cleifion | Gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru yr argymhelliad hwn yn benodol i fynd i'r afael â risgiau yn ymwneud â thymereddau bwyd ar y ward.<br>Y risg fwyaf oedd pan oedd yn rhaid i'r bwyd deithio i'r mannau pellaf (h.y. y wardiau adsefydlu). O fis Mawrth 2011, dechreuodd y rheolwr arlwyo dros dro ddefnyddio'r ychydig drolïau poeth a oedd yn gweithio ar unwaith a'u symud i'r wardiau a oedd bellaf i ffwrdd er mwyn sicrhau bod gan yr ardaloedd hynny lle roedd y risg fwyaf fwyd poeth.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi caffael yr holl drolïau poeth gofynnol erbyn hyn ac wedi dechrau eu defnyddio ym mhob ward ar safle Ysbyty Maelor Wrecsam o fis Ionawr 2013. Cymerodd y mater hwn o ran diogelwch cleifion ddwy flynedd i'w roi ar waith. | Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad | |

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb ym mis Ionawr 2013 | Cynnydd erbyn mis Ionawr 2013 | Cynnydd yr erbyn yr argymhelliad gwreiddiol<br>• Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad<br>• Cam gweithredu ar Waith<br>• Heb ddechrau mynd i'r afael â'r argymhelliad | Camau gweithredu awgrymedig/cynlluniedig pellach |
|---|---|---|---|---|
| A10 Mynd i'r afael â diffygion a nodwyd yn yr amgylchedd arlwyo yn Ysbyty Maelor Wrecsam fel mater o frys. | Paul Clarke, Pennaeth Gwasanaethau Cleifion | Mae'r materion a nodwyd yn ein hadroddiad gwreiddiol wedi cael eu datrys. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgymryd ag ystod o gamau unioni, gan gynnwys gwaith cyfalaf i fynd i'r afael â materion amgylcheddol ym maes arlwyo. Mae gwaith pellach ar ystadau wedi ei gwblhau i ddefnyddio'r trolïau poeth newydd sydd bellach ar waith yn Ysbyty Maelor Wrecsam. | Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad | |
| A11 Gweithredu gwelliannau i drefniadau darparu bwyd i wardiau er mwyn sicrhau bod tymheredd y bwyd yn cael ei gynnal ar y lefelau priodol. | Heather Piggott, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (Gwasanaethau Rheoli Haint a Chleifion) | Cymerodd y Bwrdd Iechyd gamau ar unwaith i fynd i'r afael â'r wardiau a oedd bellaf i ffwrdd o'r ceginau, gan ddefnyddio'r nifer fach o drolïau poeth a oedd eisoes ar gael. Parhaodd wardiau eraill i ddefnyddio trolïau heb wres ynddynt ers ein hadolygiad gwreiddiol, tan fis Ionawr 2013. Y canlynol sy'n gyfrifol am yr oedi cyn ymateb i'r argymhelliad hwn:<br>• trefniadau rheoli prosiectau a ganolbwyntiodd ar yr elfen cyfalaf, yn hytrach nag ar y newidiadau ehangach mewn gwasanaethau, ym maes arlwyo ac | Cam gweithredu ar Waith | |

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb ym mis Ionawr 2013 | Cynnydd erbyn mis Ionawr 2013 | Cynnydd yr erbyn yr argymhelliad gwreiddiol<br>• Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad<br>• Cam gweithredu ar Waith<br>• Heb ddechrau mynd i'r afael â'r argymhelliad | Camau gweithredu awgrymedig/cynlluniedig pellach |
|---|---|---|---|---|
| | | ar y wardiau;<br>• yr amser a gymerodd i benderfynu ar y dull o ddarparu bwyd (er enghraifft, Swmpgyflenwi neu Fwyd ar Blât);<br>• yr amser a gymerodd i dendro, profi, dewis darparwr a chaffael trolïau; a<br>• gwaith nas rhagwelwyd yr oedd angen ei wneud i fynd i'r afael â gofynion pweru'r trolïau a gaiff eu cynhesu'n electronig. | | |
| A12 Dadgomisiynu'r trolïau plastig llwyd brwnt sydd wedi eu difrodi ac sy'n cael eu defnyddio ar gyfer mân ddosbarthiadau arlwyo yn Ysbyty Maelor Wrecsam. | Paul Clarke, Pennaeth Gwasanaethau Cleifion | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dadgomisiynu'r trolïau plastig llwyd ac wedi prynu trolïau dur gloyw yn eu lle. | Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad | |

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb ym mis Ionawr 2013 | Cynnydd erbyn mis Ionawr 2013 | Cynnydd yr erbyn yr argymhelliad gwreiddiol<br>• Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad<br>• Cam gweithredu ar Waith<br>• Heb ddechrau mynd i'r afael â'r argymhelliad | Camau gweithredu awgrymedig/cynlluniedig pellach |
|---|---|---|---|---|
| A13 Cyflwyno amser bwyd wedi'i neilltuo ar bob ward briodol sy'n bodloni'r dull gweithredu a fabwysiadwyd ar y wardiau gorau. | Heather Piggott, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (Gwasanaethau Rheoli Haint a Chleifion) | Nid yw'r polisi amser bwyd wedi'i neilltuo ar waith eto. Mae'r Bwrdd Iechyd yn asesu gofynion amser bwyd wedi'i neilltuo, dulliau arfer da ac unrhyw amrywiad gofynnol a nodwyd gan ei ddulliau dysgu Cynllunio Cyflawni Astudio Gweithredu. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno gwybodaeth i gleifion a'u teuluoedd ac wedi datblygu 'pasbort' fel y gall perthnasau helpu cleifion. | Cam gweithredu ar Waith | |
| A14 Atgyfnerthu'r angen i gleifion lanhau eu dwylo. | Heather Piggott, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (Gwasanaethau Rheoli Haint a Chleifion) | Nododd y Bwrdd Iechyd fod Metronau yn asesu cydymffurfiaeth fel rhan o hanfodion yr archwiliad gofal a hapwiriadau Metronau. | Cam gweithredu ar Waith | |

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb ym mis Ionawr 2013 | Cynnydd erbyn mis Ionawr 2013 | Cynnydd yr erbyn yr argymhelliad gwreiddiol<br>• Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad<br>• Cam gweithredu ar Waith<br>• Heb ddechrau mynd i'r afael â'r argymhelliad | Camau gweithredu awgrymedig/cynlluniedig pellach |
|---|---|---|---|---|
| A15 Cyflwyno 'maeth sylfaenol' yn y rhaglen hyfforddi i staff arlwyo ar wardiau i wella eu hymwybyddiaeth o'i bwysigrwydd a'r angen i ddilyn gweithdrefnau'r ward. | Heather Piggott, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (Gwasanaethau Rheoli Haint a Chleifion) | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno'r E-hyfforddiant Maeth Cenedlaethol ac mae hyn yn orfodol i bob aelod o'r staff nyrsio. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o staff ward gwblhau'r pecyn erbyn mis Hydref 2012. 2050 o staff nyrsio'r Bwrdd Iechyd a myfyrwyr wedi cael eu cofrestru ar gyfer hyfforddiant, gyda 947 ohonynt wedi rhoi cynnig ar yr hyfforddiant hwn/wedi ei gwblhau. Mae angen gwneud mwy o ymdrech o hyd i wella'r nifer sy'n cwblhau'r hyfforddiant, ond mae'n werth nodi bod y Bwrdd Iechyd ar y blaen i fyrddau iechyd eraill yng Nghymru.<br>Yn ogystal, mae nyrsys maeth yn darparu hyfforddiant ar y safleoedd gofal Acíwt (rhaglen dreigl ar bob ward), lleoliadau cymunedol ac yn y sector cartrefi nyrsio. Nid yw hyn yn cynnwys nyrsys practis gofal sylfaenol eto. Mae'r hyfforddiant yn cwmpasu pob maes risg uchel fel MUST yn ôl pob | Cam gweithredu ar Waith | |

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb ym mis Ionawr 2013 | Cynnydd erbyn mis Ionawr 2013 | Cynnydd yr erbyn yr argymhelliad gwreiddiol<br>• Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad<br>• Cam gweithredu ar Waith<br>• Heb ddechrau mynd i'r afael â'r argymhelliad | Camau gweithredu awgrymedig/cynlluniedig pellach |
|---|---|---|---|---|
| | | golwg[6] Sgrinio, cynllunio gofal, gwneud penderfyniadau moesegol. Mae hyfforddiant pwrpasol ar gael hefyd ar gais, sy'n seiliedig ar angen. Nid yw graddau'r hyfforddiant hwn ar wardiau gofal acíwt ac mewn lleoliadau cymunedol yn glir. | | |
| **Diwallu anghenion maethol cleifion a'u helpu i wella** | | | | |
| A16 Atgyfnerthu'r angen i nodi pwysau a thaldra claf er mwyn cyfrifo Mynegai Màs y Corff (BMI) y claf cyswllt. | Heather Piggott, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (Gwasanaethau Rheoli Haint a Chleifion) | Mae taldra, pwysau a mesur BMI wedi cael eu cynnwys fel rhan o'r hyfforddiant e-ddysgu a'r hyfforddiant pwrpasol.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi caffael cloriannau eistedd safonol newydd, ond nid ydynt yn cael eu defnyddio eto ar bob ward.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dangos cydymffurfiaeth â dangosfwrdd nyrsio a bydwreigiaeth Cymru gyfan a gofynion adrodd metrigau gofal. Mae'r Bwrdd Iechyd yn | Cam gweithredu ar Waith | |

[6] Cynlluniwyd Dull Sgrinio Cyffredinol Diffyg Maethiad (MUST) gan Grŵp Cynghori ar Ddiffyg Maethiad Cymdeithas Brydeinig ar gyfer maeth drwy'r gwythiennau a'r ymysgaroedd, fel ffordd effeithiol o nodi oedolion (yn enwedig yr henoed) sydd heb gael digon o faeth, sydd mewn perygl o ddioddef o ddiffyg maethiad neu sy'n ordew. Mae'r dull hefyd yn cynnwys canllawiau ar gyfer cyflwyno cynllun triniaeth effeithiol ac addas.

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb ym mis Ionawr 2013 | Cynnydd erbyn mis Ionawr 2013 | Cynnydd yr erbyn yr argymhelliad gwreiddiol<br>• Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad<br>• Cam gweithredu ar Waith<br>• Heb ddechrau mynd i'r afael â'r argymhelliad | Camau gweithredu awgrymedig/cynlluniedig pellach |
|---|---|---|---|---|
| | | defnyddio'r dull hwn i gofnodi effeithiolrwydd sgrinio maethol ar bob safle, er nad yw rhai safleoedd wedi cyflwyno data, a all awgrymu bod angen gwella ymhellach. | | |
| A17 Gwella'r fformat a'r mathau o wybodaeth sy'n gysylltiedig â maeth a gofnodir yn nodiadau'r nyrsys ar gyfer y cleifion. | Heather Piggott, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (Gwasanaethau Rheoli Haint a Chleifion) | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi safoni Cynlluniau Gofal Nyrsio ar bob safle. Mae ffurflenni mwy cyson hefyd i gasglu ac asesu gwybodaeth faethol. | Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad | |
| A18 Datblygu dulliau ymarferol o helpu i gwblhau siartiau cofnodi bwyd a siartiau cymryd/ gwared hylif rheolaidd. | Heather Piggott, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (Gwasanaethau Rheoli Haint a Chleifion) | Mae prosesau a ffurflenni syml ar gael bellach er mwyn helpu staff i gadw cofnod o hylif a bwyd yn rheolaidd. Mae'r rhain yn darparu cofnod tymor hwy o'r cymeriant maethol (hyd at saith wythnos), a bwriedir iddynt fod yn hygyrch wrth ymyl y gwely. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn datblygu adnodd archwilio i asesu'r gwaith o gwblhau'r dull sgrinio maethol. | Cam gweithredu ar Waith | |

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb ym mis Ionawr 2013 | Cynnydd erbyn mis Ionawr 2013 | Cynnydd yr erbyn yr argymhelliad gwreiddiol<br>• Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad<br>• Cam gweithredu ar Waith<br>• Heb ddechrau mynd i'r afael â'r argymhelliad | Camau gweithredu awgrymedig/cynlluniedig pellach |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi datblygu pecyn cymorth maethol ac yn treialu agweddau gwahanol ar hyn ar ddwy ward yn y ddau ysbyty gofal acíwt. | | |
| **Casglu barn cleifion a rhannu gwybodaeth** | | | | |
| A19 Cyflwyno trefniadau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth am farn cleifion am y gwasanaeth rhwng rheolwyr wardiau a'r gwasanaeth arlwyo. | Heather Piggott, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (Gwasanaethau Rheoli Haint a Chleifion) | Mae nifer o adnoddau ar gael y gellir eu defnyddio i gasglu barn cleifion:<br>• Arolwg Picker 2010 a 2012<br>• Archwiliad o Hanfodion Gofal<br>• Arolwg arlwyo ar gyfer cleifion<br>Mewn rhai achosion, mae'n glir sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r adnoddau hyn i gael adborth, a chymryd camau gwella/unioni. Nid yw'n glir sut y caiff gwersi a ddysgwyd:<br>• eu trosglwyddo a'u cymhwyso ar bob safle; ac<br>• o archwiliadau o Hanfodion Gofal ac arolwg Picker eu derbyn gan y gwasanaeth arlwyo. | Cam gweithredu ar Waith | Dylai'r Bwrdd Iechyd gynnal yr Arolwg Picker neu arolwg tebyg yn ystod 2013, i nodi a wnaed cynnydd, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch cleifion. |

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb ym mis Ionawr 2013 | Cynnydd erbyn mis Ionawr 2013 | Cynnydd yr erbyn yr argymhelliad gwreiddiol<br>• Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad<br>• Cam gweithredu ar Waith<br>• Heb ddechrau mynd i'r afael â'r argymhelliad | Camau gweithredu awgrymedig/cynlluniedig pellach |
|---|---|---|---|---|
| A20 Cynnwys cleifion yn llawn wrth ddatblygu'r gwasanaeth arlwyo, gan adeiladu ar brofiadau cadarnhaol diweddar ymgysylltu â chleifion. | Heather Piggott, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (Gwasanaethau Rheoli Haint a Chleifion) | Mae cylch gorchwyl INCHS yn nodi'r gofyniad am gynrychiolydd cleifion, ond nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi recriwtio ar gyfer y swydd wag hon eto.<br>Mae gan y Grŵp Hawliau Dynol gynrychiolydd cleifion ac i bob diben mae'n cefnogi ac yn herio'r grŵp o safbwynt y claf.<br>Mae'r gwaith o Gynllunio Bwydlenni Cenedlaethol (datblygu Bwydlen Cymru gyfan) wedi cynnwys cynrychiolwyr cleifion.<br>Nid oes cynrychiolydd cleifion yn y Grŵp Arlwyo. | Cam gweithredu ar Waith | Sicrhau bod cynrychiolydd cleifion yn cael ei recriwtio ar gyfer grŵp INCHS erbyn mis Ebrill 2013. |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


| Wales Audit Office | Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|
| 24 Cathedral Road | 24 Heol y Gadeirlan |
| Cardiff CF11 9LJ | Caerdydd CF11 9LJ |
| Tel: 029 2032 0500 | Ffôn: 029 2032 0500 |
| Fax: 029 2032 0600 | Ffacs: 029 2032 0600 |
| Textphone: 029 2032 0660 | Ffôn Testun: 029 2032 0660 |
| E-mail: info@wao.gov.uk | E-bost: info@wao.gov.uk |
| Website: www.wao.gov.uk | Gwefan: www.wao.gov.uk |